



Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Rydym yn gwybod y gall ymddygiad gwrthgymdeithasol gael effaith enfawr ar fywydau ein cwsmeriaid a byddwn yn parhau i gefnogi unrhyw un sydd â phryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod y pandemig Coronafirws.

Rydym yn cydnabod bod y sefyllfa bresennol yn anodd i bawb, ond gofynnwn yn garedig i denantiaid ddangos ystyriaeth i'w cymdogion yn ystod y cyfnod parhaus yma o gyfyngiadau symud oherwydd COVID-19. Er enghraifft, gall niwsans sŵn effeithio ar iechyd meddwl pobl trwy achosi aflonyddwch cwsg, neu fethu ymlacio yn yr ardd neu gyda ffenestri ar agor tra bo'r tywydd yn braf.

Parhewch i gysylltu â ni i roi gwybod am unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod oriau agor swyddfa arferol. Fel arall, y tu allan i oriau swyddfa, cysylltwch â'r heddlu ar 101 neu cliciwch ar y ddolen ganlynol: <https://www.north-wales.police.uk/contact>

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys y canlynol:

- Niwsans sŵn
- Cŵn yn baeddu
- Gweithgaredd sy'n gysylltiedig â chyffuriau
- Cam-drin geiriol neu gorfodol
- Tarfu ar eraill
- Defnyddio'r eiddo
- Celcio

Oherwydd y cyfyngiadau cyfredol, ni fydd staff yn gallu dilyn y weithdrefn arferol o gynnal ymweliad cartref, ond maent ar gael i drafod y mater ymhellach gyda chi, a chwblhau ymchwiliadau. Mae'n bwysig inni reoli eich disgwyliadau o ran yr hyn y gellir ei gyflawni wrth ddelio â'ch pryderon / cwynion.

Ni ystyrir bod yr enghreifftiau canlynol yn ymddygiad gwrthgymdeithasol:

- Plant yn chwarae
- Partïon unwaith ac am byth
- Pobl yn anghwrtais, neu'n rhoi "edrychiad rhyfedd" i chi
- Cathod yn crwydro neu'n baeddu
- Anghydfodau ar gyfryngau cymdeithasol fel Facebook
- Sŵn arferol y cartref e.e. slamio drws yn achlysurol, sŵn hwfyr
- Parcio anystyriol

Os ydych yn pryderu bod cymdogion yn torri'r mesurau ymbellhau cymdeithasol Coronafirws cyfredol, gallwch godi eich pryder â'r heddlu trwy ffonio 101 neu glicio ar y ddolen isod.

<https://www.police.uk/tua/tell-us-about/c19/tell-us-about-possible-breach-coronavirus-measures>